5 Tachwedd 2025

Annwyl

**ATISN 26237**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 08 Hydref 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

**“Yng nghyd-destun datblygu setiau o reoliadau safonau'r Gymraeg, dogfen/ymateb/gohebiaeth sy'n cynnwys unrhyw awgrym gan Gomisiynydd y Gymraeg, y dylai'r safonau gweithredu gynnwys safon a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddynodi eu gweithleoedd yn ôl cyfrwng ieithyddol gweinyddiaeth fewnol y gweithle, er enghraifft fel rhai sy'n gyfrwng Cymraeg, Cymraeg yn bennaf gyda pheth Saesneg, dwyieithog, Saesneg yn bennaf gyda pheth Cymraeg, neu Saesneg yn unig. Hoffwn i chi gyfyngu'r amser dan sylw i 2013-2018.”**

Diolch hefyd am eich gohebiaeth 24 Hydref 2025 oedd yn cadarnhau mai dogfen / ymateb / gohebiaeth yn deillio o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg oedd dan sylw yn eich cais.

**Ein hymateb**

Mewn ymateb i’ch cais, nid ydym wedi dod o hyd i wybodaeth sy’n bodloni eich cais yn llawn. Fodd bynnag, rydym wedi dod o hyd i wybodaeth sydd yn bodloni eich cais yn rhannol.

Mae’r wybodaeth ganlynol wedi ei chynnwys mewn ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg i alwad am dystiolaeth – Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd, dyddiedig 26 Mehefin 2013:

***“ii) Gweithleoedd Dwyieithog***

*Mae gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog yn creu peuoedd ieithyddol lle mae modd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio a gwella eu sgiliau ieithyddol. Mae pwyntiau gweithredu Iaith Fyw: Iaith Byw (26-30) yn pwysleisio’r angen i edrych ar atgyfnerthu’r Gymraeg o fewn gweithleoedd a hynny trwy ganllawiau, safonau gweithredu, gwella cydnabyddiaeth i’r Gymraeg fel sgil a chreu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg yn y gweithle.”*

Yn ogystal, mae rhywfaint o’r wybodaeth yr ydym yn dal wedi'i heithrio o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – gwybodaeth sy'n rhesymol hygyrch trwy ddulliau eraill. Ond, er hwylustod, rwy’n darparu dolenni at dri Adroddiad Ymchwiliad Safonau sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys rhif y dudalen sy’n cynnwys y wybodaeth berthnasol:

- adroddiad-ymchwiliadau-safonau-awdurdodau-parciau-cenedlaethol-cymraeg.pdf: tudalen 48
- adroddiad-ymchwiliadau-safonau-cynghorau-sir-yng-nghymru-cymraeg.pdf: tudalen 52
- adroddiad-ymchwiliadau-safonau-gwenidogion-cymru-cymraeg.pdf: tudalen 42

Mae pob un o’r tri adroddiad ymchwiliad safonau y darperir dolen iddynt uchod yn cynnwys y sylwad canlynol:

*“gweinyddiad mewnol: polisi iaith swyddogol y gweithle – gydag amrediad o raddfeydd polisi ynghlwm wrth hynny e.e. Cymraeg yn unig, Cymraeg fel prif iaith, y ddwy iaith yn ieithoedd swyddogol;”*

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir